
# LLETY

## Canllaw i Ymgeiswyr

# Llambed



WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2020
WINNER ACCOMMODATION

**Llety Arobryn**

1af yn y DU
- Gwobrau Whatuni
Student Choice 2020


Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

“Ar ôl byw ar ac oddi ar y campws, gallaf ddweud yn onest fod yn well gen i fyw ar y campws. Does dim angen poeni am filiau ac mae cefnogaeth ar gael. Rwy’n argymell yn gryf i fyw ar y campws, ac yn Llambed; gallwch chi wneud hyn drwy gydol eich astudiaethau yn hytrach na dim ond yn eich blwyddyn gyntaf.”

**Matt Cowley,**
**Myfyriwr Ôl-raddedig**
**Astudiaethau Canoloesol**




## CYSYLLTWCH Â NI...

**Y Swyddfa Llety:**
Mae gennym wybodaeth am opsiynau llety i fyfyrwyr ar ein gwefan ac am unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch â’r Swyddfa Llety:

**E-bost:**
**accommodation@uwtsd.ac.uk**

**Ffôn:**
**07984 721 761** *neu*
**07984 696 202**

### Nod y llyfryn hwn yw rhoi’r wybodaeth ganlynol i chi:

✓ Crynodeb o’r llety sydd ar gael.

✓ Manylion ynglŷn â sut mae’r broses gwneud cais yn gweithio.

### Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael trwy ein gwefan ar:

**www.uwtsd.ac.uk/cy/llety/llambed**

Darllenwch y wybodaeth, ac os oes gennych ragor o ymholiadau, cysylltwch â’r Swyddfa Llety.

Ein nod yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i chi symud i mewn i’ch llety ac ymgyfarwyddo â’ch amgylchedd newydd.



YOUR RIGHT TO A QUALITY HOME
THE STUDENT ACCOMMODATION CODE



**Bydd byw mewn Neuadd yn rhoi'r cyfle i chi gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau newydd a mwynhau ymdeimlad o gymuned!**

Ein nod yn y Drindod Dewi Sant yw ei gwneud mor hawdd â phosibl i chi symud i mewn i'ch llety ac ymgyfarwyddo â'ch amgylchedd newydd.

## Y MANTEISION

Beth sydd wedi'i gynnwys:

- ✓ **Rydyn ni wedi cwmpasu popeth** - Mae eich biliau I GYD wedi'u cynnwys.
- ✓ **Rydyn ni'n eich cadw mewn cysylltiad** - gyda wi-fi AM DDIM.
- ✓ **Rydyn ni yma i chi 24/7** - staff diogelwch i'ch cadw'n saff a diogel.
- ✓ **Rydyn ni'n hyblyg** - gan gynnig cytundebau mwy hyblyg o gymharu â darparwyr Llety Preifat.
- ✓ **Llety arobryn** - mae gennym y Llety gorau yn y Deyrnas Unedig yn ôl pleidlais myfyrwyr. .

## RYDYN NI'N GOFALU AMDANOCH

Mae popeth er eich mwyn chi:

- ✓ **Rydyn ni'n derbyn eich post a'ch parseli** - fel nad oes raid i chi aros i mewn!
- ✓ **Rydyn ni'n ymdrin â'r holl faterion cynnal a chadw** - y cyfan mae angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni beth yw'r broblem.
- ✓ **Rydyn ni'n archwilio'n hadeiladau'n rheolaidd** - gan wneud yn siŵr eu bod yn ddiogel ac yn gysurus.
- ✓ **Mae gennym ni wasanaeth cyfeirio rhagorol** - ar gyfer unrhyw anghenion cymorth sydd gennych.
- ✓ **Rydyn ni'n gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Myfyrwyr** - i gael adborth rheolaidd am eich profiad mewn neuadd ac rydym yn dysgu o hynny bob tro.

Dros gyfnod pandemig Covid-19, roeddem yn parhau i gefnogi myfyrwyr lle bo modd, o gynnal eu gwasanaeth post a pharseli i faterion cynnal a chadw – roeddem ni yno!

Fe wnaethom ni gefnogi'r holl fyfyrwyr oedd yn hunanynysu mewn Neuaddau, drwy gynnal sgyrsiau wythnosol, trefnu parseli bwyd, a gwneud yn siŵr fod ganddynt bopeth oedd ei angen yn ystod eu cyfnod yn hunanynysu.

Rhoddwyd ad-daliad rhent i'r myfyrwyr hynny oedd yn dal i fod gartref yn ystod y cyfnodau clo. Fe wnaethom ni eu helpu i gael yr eitemau oedd eu hangen arnynt o'u hystafelloedd. Fe wnaethom ni eu cefnogi pan oedd angen iddynt ddychwelyd i'w Neuadd Breswyl.

# LLETY

**Mae holl lety'r Drindod Dewi Sant yn Llambed wedi'i leoli ar y campws ei hun, ac rydym yn darparu ar gyfer myfyrwyr cyntaf, ail a thrydydd blwyddyn yn ogystal a myfyrwyr ôl-raddedig.**

Mae preswylfeydd ein Prifysgol yn cynnig ymdeimlad o gymuned i chi sy'n creu'r cartref perffaith hwnnw oddi cartref.



## Llety Gwarantedig

Rydym yn Gwarantu Llety'r Brifysgol i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf sy'n gwneud cais ac yn dal Prifysgol y Drindod Dewi Sant fel dewis cadarn.

## Amrywiaeth o Opsiynau

Rydym yn cynnig amrywiaeth o lety o neuaddau safonol gyda chyfleusterau ymolchi i rannu, i ystafelloedd en-suite. Mae'r prisiau'n cynnwys yr holl filiau ar gyfer wi-fi, gwres, trydan a dŵr.

## Beth sydd wedi'i gynnwys yn eich Ffioedd:

- ✓ Biliau cyfleustodau i gyd.
- ✓ Dim costau ychwanegol am waith cynnal a chadw a thrwsio.
- ✓ Patrolau diogelwch 24 awr ac ymateb i argyfwng.
- ✓ Cymorth gan y Swyddfa Llety.





# Neuaddau Carl Lofmark, Roderic Bowen a Edwin Morris

Ystafelloedd En-suite - Hunanarlwyo

## Beth sydd wedi'i gynnwys yn Neuaddau Carl Lofmark, Roderic Bowen a Edwin Morris:

- ✓ Mae gan bob ystafell En-suite gwpwrdd dillad, desg, cadair a gwely.
- ✓ Fflatiau o chwech neu saith ystafell wely.
- ✓ Mae cegin gyffredin a lolfa ym mhob fflat, a darpara'r Brifysgol oergell, rhewgell, tostiwr, tegell, meicrodon a ffwrn.

**NEWYDD**
**Cynnig am Gontract Llety Hyblyg**

Rydym yn dod yn fwy hyblyg i gyd-fynd â'ch astudiaethau. Os hoffech fanteisio ar gytundeb hyblyg neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, byddem yn eich cynghori i gysylltu â'n Swyddfa Llety cyfeillgar.




## Gwybodaeth a Ffioedd Ystafell:

| Disgrifiad | Cyfleustodau | Ffioedd | Hyd y Contract |
|---|---|---|---|
| Ystafell Sengl En-suite | Cynwysedig | £3,420 y flwyddyn | 38 Wythnos |

# Neuaddau Lloyd Thomas

Ystafelloedd Bach
En-suite - Hunanarlwyo



### Beth sydd wedi'i gynnwys yn Neuaddau Lloyd Thomas:

- ✓ Mae gan bob ystafell En-suite gwpwrdd dillad, desg, cadair a gwely.
- ✓ Fflatiau o bedair neu saith ystafell wely.
- ✓ Mae cegin gyffredin a lolfa ym mhob fflat, a darpara'r Brifysgol oergell, rhewgell, tostiwr, tegell, meicrodon a ffwrn.





## Gwybodaeth a Ffioedd Ystafell:

| Disgrifiad | Cyfleustodau | Ffioedd | Hyd y Contract |
|---|---|---|---|
| Ystafell Fach Sengl En-suite | Cynwysedig | £3,382 y flwyddyn | 38 Wythnos |



# Neuaddau Simon Evans a John Richards

Ystafelloedd Safonol - Hunanarlwyo

### Beth sydd wedi'i gynnwys yn Neuaddau Simon Evans a John Richards:

- ✓ Mae gan bob ystafell safonol gwpwrdd dillad, desg, cadair a gwely.
- ✓ Fflatiau o bump ystafell wely.
- ✓ Mae cegin gyffredin a lolfa ym mhob fflat, a darpara'r Brifysgol oergell, rhewgell, tostiwr, tegell, meicrodon a ffwrn.
- ✓ Cyfleusterau ymolchi i rannu.









## Gwybodaeth a Ffioedd Ystafell:

| Disgrifiad | Cyfleustodau | Ffioedd | Hyd y Contract |
|---|---|---|---|
| Ystafell Safonol Sengl | Cynwysedig | £2,850 y flwyddyn | 38 Wythnos |

# Y Broses Gwneud Cais

# Cwestiynau Cyffredin



## Pryd ddylwn i wneud cais am lety yn Neuaddau'r Brifysgol Llambed?

Gallwch wneud cais am Lety o fis Ionawr ymlaen. Mae'r ddolen gwneud cais ar-lein ar gael ar y wefan llety: **www.uwtsd.ac.uk/cy/llety**

## Sut mae'r broses gwneud cais yn gweithio?

Bydd angen eich Rhif Myfyriwr i gofrestru a gwneud cais.

Os oes gennych unrhyw ofynion neu geisiadau arbennig, yna ychwanegwch y rhain at y ffurflen yn yr adran "nodiadau".

Os cewch unrhyw broblemau, cysylltwch â'r tîm llety a fydd yn gallu eich cynorthwyo: **accommodation@uwtsd.ac.uk**

Os cynigiwyd lle amodol i chi ar eich dewis raglen, cadarnheir eich lle ar y rhaglen cyn gynted ag y bydd Derbyniadau'r Gofrestrfa wedi cael cadarnhad eich bod wedi bodloni telerau'ch cynnig. Wedyn bydd statws eich cynnig ar gyfer y rhaglen yn troi'n un Pendant Diamod. Os penderfynwch y pryd hwn nad oes arnoch angen llety bellach, mewngofnodwch ar y porth Archebu Llety a gwrthod ('Decline') y llety. Bydd hyn wedyn yn canslo eich archeb.

## Pryd fyddaf i'n gwybod manylion yr ystafell a ddyrannwyd i mi?

Gall ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig lle pendant diamod ar eu rhaglen ddisgwyl e-bost gan y Swyddfa Llety ym mis Medi sy'n cadarnhau manylion yr ystafell a ddyrannwyd iddynt.

## Nid y Brifysgol yw fy newis cyntaf, erbyn pryd mae angen i fi wneud cais am lety?

Bydd angen i chi wneud cais am lety unwaith y caiff ei gadarnhau mai ni yw'r Brifysgol y byddwch yn dod iddi.

## Rydw i wedi penderfynu mynd i astudio yn rhywle arall...

Bydd angen i chi fewngofnodi i'r Porth Archebu Llety i ganslo eich ystafell.

## Gaf i ddod â char?

Mae'r parcio'n gyfyngedig iawn ar y safle. Rydym yn cynghori myfyrwyr preswyl i beidio â dod â cheir. Fodd bynnag, os hoffech ddefnyddio'r maes parcio bydd angen i chi wneud cais am drwydded.

## Gaf i aros ar y campws yn ystod y gwyliau?

Mae eich cytundeb trwydded yn caniatáu defnyddio eich ystafell am 38 o wythnosau, sy'n cynnwys gwyliau'r Nadolig a'r Pasg. Os oes angen i chi ymestyn eich contract cysylltwch â'r Swyddfa Llety i drafod.





## Ymgeiswyr Llwyddiannus

Caiff ymgeiswyr eu cyfeirio at dudalen Facebook a fydd yn eu galluogi i ddod i adnabod eu cyd-fyfyrwyr.

Bydd y trefniadau symud i mewn yn cael eu hanfon atoch drwy e-bost ddechrau mis Medi.

Cysylltwch â'r Swyddfa Llety am unrhyw wybodaeth bellach.

**accommodation@uwtsd.ac.uk**

**07984 721 761** *neu*
**07984 696 202**

# Map Lleoliad

CAMPWS LLAMBED

**1 ADEILAD CAERGAINT**
Gwasanaethau Myfyrwyr
Cymorth Dysgu / Gyrfaoedd
Desg Gwasanaeth TG / Cyllid
Swyddfa'r Gyfadran / Y Gofrestrfa

**2 ADEILAD THEATR CLIFF TUCKER**
Tucker 1, 2, 3

**3 ADEILAD DEWI SANT**
Prif Fynedfa
Swyddfa Llety / Desg Gymorth Llety Hen Neuadd / Capel
Dewi 1,2,3 / Llyfrgell y Sylfaenwyr
Ystafell Rider

**4** Adeilad Harford I
**5** Adeilad Harford II


**6 ADEILAD SHEIKH KHALIFA**
Khalifa 1, 2, 3

**7 ADEILAD Y CELFYDDYDAU**
Labordy Glas (Mynediad TG 24 awr
Labordy Iaith

**8** Athrofa Confucius
**9** Bwthyn Ardulas
**10** Bwthyn Dolwen
**11** Bwthyn Riverside
**12** Canolfan Chwaraeon
**13** Gwasanaethau'r Cyfryngau
**14** Uned Argraffu
**15** Canolfan Ymchwil Roderic Bowen
**16** Canolfan Ymchwil Rowland Williams
**17** Labordy Coch
**18** Labordai Archaeoleg yr Amgylchedd

**19 LLYFRGELL**
Llyfrgell ac Archif Roderic Bowen
**20** Meithrinfa
**21 NEUADD BURGESS**
**22 NEUADD CARL LOFMARK**
**23 NEUADD DANIEL DAWSON**
**24 NEUADD EDWIN MORRIS**
**25 NEUADD HAROLD ARTHUR HARRIS**
**26 NEUADD HUGH WALKER**
**27 NEUADD JOHN RICHARDS I**
**28 NEUADD JOHN RICHARDS II**
**29 NEUADD LLOYD THOMAS**
**30 NEUADD RODERIC BOWEN**
**31 NEUADD SIMON EVANS**
**32** Rhoslwyn
**33** Undeb y Myfyrwyr
**34** Labordy Materoldebau
**35** Willows
**36** Ystafell Ddarlithio Sinoleg
**37 YSTAFELL FWYTA LLOYD THOMAS**
Siop Goffi 1822
**38** Ystafell Weddïo

**Allwedd:**
P Parcio
Safleoedd Bws
Bwyd a Diod
Siopa





# Symud i Lambed?


Dyma rai pethau gwych am yr ardal leol...

### MYND I CHWILIO AM DDOLFFINIAID YNG NGHEINEWYDD

**Mae Ceinewydd yn gartref i boblogaeth fawr o ddolffiniaid trwyn potel sydd i'w gweld yn aml yn llamu yn y dyfroedd tu hwnt i wal yr harbwr. Bydd y teithiau cychod dyddiol yn rhoi cyfle i chi weld y creaduriaid prydferth hyn yn ogystal ag anifeiliaid lleol eraill yn eu cynefin naturiol.**

Llun: Yannik Menard, Unsplash.com

## CRWYDRO CEREDIGION




1 **Arfordir Ceredigion**
Dewch i ddarganfod traethau tywod godidog â'u dŵr clir, ogofâu, rhaeadrau, clogwyni garw, gwyllt a chyfle i weld dolffiniaid hyd yn oed! Mae nifer o draethau o feintiau amrywiol ar hyd arfordir Bae Ceredigion gan gynnwys Llangrannog, Ceinewydd a Poppit i enwi ond ychydig, yn ogystal â llawer o drysorau cudd eraill y mae modd eu cyrraedd ar droed yn unig gan ddefnyddio llwybrau lleol neu Lwybr Arfordir Cymru.

2 **Treftadaeth Cymru**
A hithau'n cael ei rheoli gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae Ystâd Llanerchaeron ger tref lan môr Aberaeron yn ystâd Gymreig draddodiadol gyda fila, llety'r gweision, stablau, adeiladau fferm a gardd furiog. Mae wedi ei gosod o fewn tirwedd hardd a chynhyrchiol. Gallwch fynd am dro o gwmpas y gerddi hyfryd, ymweld a anifeiliaid y fferm neu mwynhau lluniaeth ysgafn yn y caffi.

3 **Aberaeron**
Y peth cyntaf y mae'r rhan fwyaf o bol yn ei weld wrth nesáu at Aberaeron yw'r tai lliwgar, unigryw fel gemwaith. P'un a fyddwch yn mwynhau crwydro ar y traeth neu bryd da o fwyd mewn tafarn, mae Aberaeron ar arfordir Ceredigion yn lle i archwilio ac ymlacio. Dyma'r dref lan môr agosaf at Lambed, ac mae'n cynnig llawer o siopau annibynnol, canolfannau crefft a chyfleusterau bwyta yn yr awyr agored. Rhaid ymweld â'r Harbourmaster ar y cei i gael diod oer gyda golygfa wrth fwrw'ch blinder.

**Y BRIFYSGOL YN LLAMBED YW'R HYNAF YNG NGHYMRU, A'R DRYDEDD HYNAF YNG NGHYMRU A LLOEGR AR ÔL RHYDYCHEN A CHAERGRAWNT.**




### RHAID I CHI...

**Flasu hufen iâ enwog o gaffi Contis – hufen iâ Eidalaidd traddodiadol sydd wedi cael ei wneud yn Llambed er y 1930au!**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

@StudyUWTSD @UWTSD

UWTSD

drindoddewisant